# 2.3.1. (ch) Yr iaith Gymraeg a diwylliant Cymru

Mae'n bwysig cydnabod a chefnogi'r iaith Gymraeg a diwylliant Cymru.

Mae polisïau cenedlaethol a deddfwriaeth gyfredol ar gyfer y Gymraeg yn cynnwys:

**Cymraeg 2050: Strategaeth y Gymraeg**

Mae tri nod strategol i'r strategaeth hon:

1. Cynyddu nifer y siaradwyr Cymraeg.
2. Cynyddu'r defnydd o'r Gymraeg.
3. Creu amodau ffafriol (seilwaith a chyd-destun) ar gyfer y Gymraeg.

**'Mwy na geiriau'**

Fframwaith strategol dilynol ar gyfer gwasanaethau Cymraeg ym maes iechyd, gwasanaethau cymdeithasol a gofal cymdeithasol yw hon. Ei nod yw adeiladu ar y strategaeth wreiddiol i gryfhau gwasanaethau Cymraeg ym maes iechyd, gwasanaethau cymdeithasol a gofal cymdeithasol. Y bwriad yw galluogi siaradwyr Cymraeg i dderbyn gwasanaethau yn eu mamiaith, fel eu bod yn cael eu grymuso i chwarae rhan weithredol yn eu gofal.

**Pecyn gwybodaeth y 'Cynnig Rhagweithiol'**

Diben y fenter hon yw sicrhau bod y Gymraeg mor weladwy â'r Saesneg, gan ddileu'r cyfrifoldeb oddi wrth y defnyddwyr gwasanaeth i orfod gofyn am wasanaeth drwy gyfrwng y Gymraeg. Mae hyn yn cysylltu â chanllawiau a deddfwriaeth Llywodraeth Cymru ar yr iaith Gymraeg, er enghraifft Fframwaith Strategol y Gymraeg (Mwy na geiriau) a rôl Comisiynydd y Gymraeg.







